



Ein Treftadaeth
Our Heritage


Abaty Aberconwy Aberconwy Abbey

Roedd Conwy'n fynachlog wych cyn castell a muriau'r dref. Cafodd ei adeiladu gan y mynachod Sistersaidd ar dir a roddwyd iddynt gan Llywelyn Fawr, a'i alw'n Aberconwy. Roedd Llywelyn yn gefnogwr pwysig i'r Sistersaidd ac ar ôl ei deyrnasiad hir, treuliodd ei flynyddoedd olaf yma. Yn dilyn buddugoliaeth y Saeson ar Wynedd ym 1283, cafodd y mynachod eu gorfodi i symud i Abaty Maenan ymhellach i lawr dyffryn Conwy. Daeth Aberconwy'n sylfaen filwrol i fyddin Edward. Y cyfan sydd ar ôl i'w weld o'r hen abaty gwych hwn yw bedyddfaen o'r 13eg ganrif a rhannau o wal a ymgorfforwyd yn eglwys y plwyf.

Yng nghanol tref Conwy, o fewn cyrraedd hawdd i'r Ganolfan Groeso

Before the castle and town walls were built, Conwy was a grand monastery. Called Aberconwy, it was built by Cistercian monks on land given to them by Llywelyn the Great. Llywelyn was a prominent supporter of the Cistercians, and after his long reign he spent his final years here. Following the English victory over Gwynedd in 1283, the monks were forced to move to Maenan Abbey further down the Conwy valley. Conwy became a military base for Edward's army. All that remains to be seen of this once grand abbey are a 13th century font and fragments of wall incorporated into the parish church.

In Conwy town centre, easily reached from the Tourist Information Centre



1 **Maes parcio** / Car park

2 **Canolfan Groeso** / Tourist Information Centre

3 **Mynedfa i Eglwys y Santes Fair a'r Hollsaint** / Entrance to St. Mary's and All Saints Church

4 **Bwa drws y gorllewin wedi'i aildefnyddio o gabidyldy'r Abaty** /

West door arch reused from the chapter house of the Abbey

5 **Clwystry** / Cloister

6 **Ffreutur** / Refectory

7 **Cabidyldy** / Chapter House

8 **Rhannau o adeilad y 12fed ganrif** / Segments of 12th century building

